**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1479
Ein cyf/Our ref SM/00016/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

27 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn Thomas,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Ionawr ynglŷn â'r ddeiseb gan ymgyrch Cartrefi Nid Ysbytai, Stolen Lives Wales.

Rwy'n cefnogi'r egwyddor sy'n dweud nad cartref yw gwely mewn ysbyty, a phryd bynnag y bo'n ymarferol dylid gofalu am bobl ag anableddau dysgu yn y gymuned, yn eu cartrefi eu hunain, neu mor agos i'w cartrefi â phosibl. Rwyf wedi ymrwymo i leihau nifer y bobl sy'n derbyn eu gofal tymor hir mewn ysbyty, ac os bydd rhywun yn cael ei dderbyn i'r ysbyty na ddylai aros yno am fwy o amser nag sydd rhaid.

Ymatebais i ddadl am y mater hwn yn y Senedd ym mis Rhagfyr. Mae fy ymateb yn rhoi sylw i lawer o'r materion a godir yn y ddeiseb. Mae ar gael yma: Cyfarfod Llawn 04/12/2024 - Senedd Cymru

Rhoddais y dasg i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y pum elfen allweddol y gofynnir amdanynt ym maniffesto Stolen Lives Wales. Mae aelodau'r ymgyrch Stolen Lives a phartneriaid sy'n ymwneud ag anableddau dysgu yn y trydydd sector yn aelodau o'r grŵp hwn.

Mae'r grŵp wedi cyfarfod deirgwaith hyd yn hyn. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 21 Ionawr. Mae hwn yn faes gwaith cymhleth ac mae'r grŵp wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad ac argymhellion imi drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu yn yr haf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf am aros i gael yr adroddiad hwn a'i argymhellion cyn ymateb i rai o'r ymholiadau penodol yn eich llythyr. Rwyf wedi ymrwymo i rannu'r adroddiad a fy ymateb ffurfiol i unrhyw argymhellion gyda'r Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George, cadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ac at Sioned Williams, cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar anableddau dysgu.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing